*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **28 Ebrill 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Llinos Gutierrez-Jones, Pennaeth Adnoddau Dy** |
| Pwnc | **Proses Benodi ar gyfer swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y trefniadau ar gyfer recriwtio i un o'r ddwy swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC).

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

2 Nid yw'r Pwyllgor Archwilio na'r Panel Gweithredol wedi ystyried hyn o'r blaen.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) **Nodi'r broses fel yr amlinellir hi isod; a**
ii) **chadarnhau aelodaeth y pwyllgor penodiadau.**

**CEFNDIR**

4 Yn dilyn ymddeoliad PSTC ym mis Mai 2023, cadwyd y swydd yn wag er mwyn cyfrannu at arbedion 2023–24 ac i ariannu swydd Rheolwr Ardal dros dro ychwanegol. Roedd angen y swydd hon oherwydd y llwyth gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

5 Ar 20 Mawrth 2025, cyflwynodd PSTC Stuart Millington hysbysiad i ddweud y bydd yn ymddeol o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 20 Mehefin 2025. Bydd yn cymryd yr holl wyliau sydd ganddo i'w cymryd, ac felly bydd ei ddiwrnod gwaith olaf tua diwedd Mai 2025. Er mwyn cynnal y rota weithredol ac i reoli'r llwythi gwaith sylweddol sydd ynghlwm â'r Ganolfan Hyfforddi newydd a'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, mae arnom angen penodi rhywun i o leiaf un o'r ddwy swydd PSTC wag cyn gynted ag y gallwn.

**GWYBODAETH**

6 Yn unol â phob penodiad i'r tîm Prif Swyddogion, penodiad gan yr Aelodau fydd hwn. Bydd angen cynnull pwyllgor penodiadau ac iddo chwe Aelod, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, a Swyddogion yr Awdurdod.

7 Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu ar wefan Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân er mwyn denu ymgeiswyr sydd â chymwysterau addas. Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu gyda'r disgwyliad y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithredu ar lefel Trefn Reoli Aur ac, er mwyn cydbwyso setiau sgiliau'r tîm, yn gallu rheoli digwyddiadau gweithredol. Bydd gofyn i ymgeiswyr nad oes ganddynt gymhwyster Trefn Reoli Aur gyrraedd lefel Trefn Reoli Aur o fewn cyfnod rhesymol o amser.

8 Yn yr un modd, bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd feddu ar naill ai sgiliau Cymraeg Lefel 3 neu gyrraedd y lefel honno o fewn amserlen a bennir.

9 Bydd y broses benodi yn dilyn y broses asesu a ddefnyddiwyd yn 2021 i benodi Prif Swyddogion. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr asesiad a'r cyfweliadau yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn hytrach nag yn rhithiol.

**AMSERLEN ARFAETHEDIG**

10 Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer y broses benodi fel a ganlyn:

- Hysbyseb i'w gosod erbyn 9 Mai 2025
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 30 Mai 2025
- Llunio rhestr fer a gwahodd i'r asesiad cychwynnol erbyn 3 Mehefin 2025
- Asesiad Swyddogion a Phanel yr Aelodau i'w gadarnhau
- Cadarnhau'r penodiad yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 21 Gorffennaf 2025.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim goblygiadau |
| Cyllideb | Mae'r cyllid ar gyfer y swydd hon o fewn y gyllideb bresennol |
| Cyfreithiol | Penodiad gan yr Aelodau fel y nodir yn y Cyfansoddiad |
| Staffio | Llenwi swydd sy'n bodoli eisoes er mwyn gallu darparu rota ddyletswydd barhaus |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Yn agored i bob ymgeisydd cymwys |
| Risgiau | Diffyg ymgeiswyr y gellir eu penodi |